

WHC/2022/15

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Mehefin 2022



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWEITHREDU
CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD

Teitl: Newidiadau i'r brechlyn ar gyfer y rhaglen imiwneiddio HPV

Dyddiad dod i ben/Adolygu Amherthnasol

I'w weithredu gan:

Nyrsys ysgol, Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd
Prif Weithredwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd
Cyfarwyddwyr lechyd y Cyhoedd, Byrddau lechyd
Prif Weithredwr, lechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau lechyd y Cyhoedd, lechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Nyrsio, lechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Raglen Clefydau y gellir eu Hatal drwy Frechu, lechyd Cyhoeddus Cymru
Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Er gwybodaeth i:

Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Cyfarwyddwyr Cyllid, Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd
Cyfarwyddwyr lechyd Sylfaenol, Cymunedol ac lechyd Meddwl, Byrddau lechyd
Prif Fferyllwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd
Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Meddygon Teulu

Anfonydd:

Syr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

Enw(au) cyswllt yn Adran lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Tîm y Rhaglen Frechu, y Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ E-bost: wg.vaccinationsprogrammteam@gov.wales

Annwyl Gyfaill,

Mae'r llythyr hwn yn darparu gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig i'r rhaglen imiwneiddio yn erbyn y feirws papiloma dynol (HPV) Anelir y llythyr hwn at weithwyr iechyd proffesiynol a fydd yn gyfrifol am gyflwyno'r rhaglen. Hoffwn eich annog i rannu'r canllawiau hyn â phawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen frechu HPV genedlaethol yn eich ardal.

Pwyntiau allweddol am y newidiadau i'r rhaglen:

Newid i'r brechlyn

Bydd y brechlyn a gyflenwir ar gyfer y rhaglen yn newid o Gardasil® to Gardasil®9 yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23.

Bydd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU yn parhau i gyflenwi brechlyn ar gyfer y rhaglen HPV yn y ffordd arferol a bydd yn dosbarthu gweddill y cyflenwadau canolog o Gardasil® cyn y newid i Gardasil®9, a fydd yn digwydd yn ail chwarter 2022.

Cymhwysedd

Nid oes unrhyw newid i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y brechlyn hwn, a bydd newid y brechlyn yn effeithio ar bob rhan o'r rhaglen HPV (y glasoed 12-13 oed, y rhai sy'n dal yn gymwys tan eu pen-blwydd yn 25 oed, ac unigolion o'r gymuned dynion sy'n cael rhyw gyda dynion (MSM) hyd at 45 oed).

Ar gyfer y rhaglen a leolir mewn ysgolion yn benodol, bydd angen cyfathrebu'n glir â rhieni a phobl ifanc gymwys a rhoi trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod y broses gydsynio yn ddigonol ar gyfer y cyfnod pontio hwn yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23.

Nodir gwybodaeth a chanllawiau manwl ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn *Atodiad A*.

Mae *Atodiad C* yn cynnwys taflen holi ac ateb i'ch helpu i ddelio â chwestiynau y gallai cleifion a'u rhieni eu gofyn am y newidiadau hyn.

Diweddariad am raglen y DU

Mae tystiolaeth gynyddol am lwyddiant y rhaglen hyd yn hyn. Yn 2018, ddeng mlynedd ar ôl cyflwyno'r rhaglen, roedd nifer yr achosion o HPV mathau 16 a 18 oed ymhlith menywod 16-18 oed yn Lloegr a gafodd gynnig brechiad yn 12-13 oed wedi gostwng yn sylweddol i lai na 2% (o'i gymharu â thros 15% cyn y rhaglen frechu yn 2008).

Dangosodd astudiaeth yn yr Alban yn 2018 fod y brechlyn wedi lleihau hyd at 71% ar glefyd ceg y groth cyn-ganseraidd ymhlith menywod 20 oed. Yn Lloegr, canfu astudiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Cancer Research UK fod cyfraddau cancer ceg y groth ymhlith menywod a gafodd gynnig y brechlyn rhwng 12 a 13 oed, ac sydd bellach yn eu 20au, 87% yn is nag mewn poblogaeth heb ei brechu.

Mae'r nifer sydd wedi cael y brechlyn HPV wedi gostwng yn ddiweddar o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, gyda darlun amrywiol ar draws y byrddau iechyd. O'r holl frechlynnau i bobl yn eu harddegau, ymddengys mai ar y brechlyn HPV yr oedd yr effaith fwyaf oherwydd cau ysgolion yn ystod y pandemig.

Roedd carfan y flwyddyn academaidd 2020/21 yn cynnwys y grŵp cyntaf o fechgyn i gael cynnig y brechlyn HPV yn ogystal â merched. Roedd y nifer a gafodd y brechlyn

HPV yn y grŵp Blwyddyn 9 llawn 2020/21 (a gafodd eu pen-blwydd yn 14 oed rhwng 01/09/20 a 31/08/21) yn 67.4% (71.1% i ferched a 64.0% i fechgyn). Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â charfan merched y blynyddoedd blaenorol yn unig lle'r oedd y nifer yn 87.3%. Ar hyn o bryd, y nifer sy'n cael dau ddos o'r brechlyn HPV ymhlith merched yng ngrŵp Blwyddyn 10 2020/21 yw 56.5%, sef gostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle'r oedd y gyfradd yn 83.5%.

Bydd angen imiwneiddiadau dal i fyny ar gyfer y rhai yn y carfannau hyn na chawsant eu himiwneiddio fel y trefnwyd ac fe ddylai'r byrddau iechyd wneud cynlluniau ar gyfer hynny os nad ydynt eisoes wedi gwneud. Mae'r dystiolaeth am effeithiolrwydd yn glir, a rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i wneud y brechlyn yn hygyrch a chynyddu'r nifer sy'n manteisio arno.

Hoffwn achub y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu gwaith caled wrth barhau i ddarparu'r rhaglen imiwneiddio HPV yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau i'w gweld yn yr Atodiadau sydd ynghlwm.

Yn gywir



Syr Frank Atherton
Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG
Cymru